# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Castell-nedd Port Talbot

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Castell-nedd Port Talbot fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Castell-nedd Port Talbot 7 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot wedi atgyfnerthu a gwella ei berfformiad mewn nifer o feysydd yn 2018/19, gyda staff ymroddedig a chynllunio gofalus yn cyfrannu at wasanaeth a reolir yn dda. Rhoddir pwyslais parhaus ar ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynigir, gan ddarparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion cymunedol, ac mae ymweliadau ffisegol ag adeiladau llyfrgelloedd yn dal i fod ymysg yr uchaf yng Nghymru. Mae mwy o fuddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau wedi galluogi gwelliant yr oedd ei angen yn ddirfawr, ac mae'r safon ar gyfer gwariant ar adnoddau Cymraeg bellach wedi'i bodloni. Fodd bynnag, nodir na cheir unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyllidebau ar y lefel hon yn 2019/20, a siomedig fyddai gweld y datblygiadau cadarnhaol hyn yn cael eu gwyrdroi. Nod penodol yr adolygiad presennol o ddarpariaeth y gwasanaeth llyfrgell, y mae disgwyl iddo gyflwyno adroddiad yn ddiweddarach yn 2019, yw parhau i sicrhau y caiff gwasanaeth llyfrgell perthnasol, cost-effeithiol a chynaliadwy ei ddarparu dros y pum mlynedd nesaf. Bydd pwysigrwydd lefelau priodol o adnoddau yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cael ei lywio i gyrraedd y nod hwn, gan ganiatáu iddo adeiladu ar y cryfderau sy'n amlwg i'r gweld yn yr adroddiad asesu eleni.

- Mae canfyddiad yr arolygon o ddefnyddwyr yn dangos effaith gadarnhaol y llyfrgell ar fywydau pobl a bod y cyfraddau boddhad uchel gyda gwasanaethau ac adnoddau yn parhau.
- Mae hyfforddiant i gwsmeriaid â ffocws newydd wedi arwain at leihad yn nifer y sesiynau hyfforddiant ffurfiol, gyda mwy o bwyslais ar gymorth TG anffurfiol i ateb y galw ymhlith defnyddwyr. Mae'r hyfforddiant anffurfiol bellach wedi cyrraedd y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth ond un yng Nghymru.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell wedi parhau i gynyddu, gyda'r perfformiad gorau y pen o'r boblogaeth yng Nghymru bellach.
- Er bod nifer yr ymwelwyr wedi lleihau ychydig, mae'r perfformiad o ran hyn yn dal yn gymharol uchel; mae nifer y llyfrau a fenthycir wedi cynyddu ac mae bellach yn cyrraedd y lefel ganolrifol neu'n agos iddi.
- Mae'r gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi cynyddu yn 2018/19, sydd i'w groesawu, ac wedi gwella'r perfformiad, ond mae'r gwasanaeth yn dal i fethu â chyflawni'r targedau caffael ar gyfer DA 9. Drwy dargedu buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg llwyddwyd i gyflawni DA 10.

- Mae nifer y staff a chyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel â 2017/18 ond mae'r naill faes a'r llall islaw'r targedau a bennwyd. Mae'r awdurdod yn parhau i gefnogi saith llyfrgell a reolir gan y gymuned, gan ymestyn cyrraedd ei wasanaethau.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i roi ymateb manwl ac ystyriol i ofynion y fframwaith, gan gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gyda phwyslais ar sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cefnogi'n llawn gan staff gwybodus a chymwysedig. Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau, drwy weithio'n agos gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn diwallu anghenion lleol. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i saith llyfrgell gymunedol anstatudol, ac mae'n arwain gwaith y consortiwm prynu i Gymru Gyfan ar gyfer e-adnoddau. Mae strategaeth pum mlynedd (2016-2021) ar waith, ond ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y gyllideb yn 2018, mae adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth llyfrgell bellach yn mynd rhagddo.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2.

| **Dangosydd Ansawdd** | **Cyflawni?** | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau y pen o'r boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth | x | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth | x | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff y pen o'r boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth | x | Heb ei gyflawni |

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi gwella ei berfformiad yn 2018/19, gan gyflawni'r targed ar gyfer gwariant cymesur ar ddeunyddiau Cymraeg, a DA 10 yn llawn.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot ei arolwg o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Chwefror 2019, gyda chanlyniadau boddhaus.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 97% | *=1/13* | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | *=1/15* | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 98% | *=7/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Castell-nedd Port Talbot bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Iechyd a Lles – rôl y llyfrgell o ran cefnogi lles cwsmeriaid llyfrgell a fyddai fel arall wedi'u hynysu. Daeth y staff yn ymwybodol o broblemau un dyn oedrannus gyda'i

amodau byw, a chan weithredu ar ei ran gwnaethant sicrhau grantiau a chymorth i uwchraddio ei system wresogi a gosod canllawiau diogelwch yn ei gartref.

- Gwirfoddoli – effaith gwirfoddoli yn y gwasanaeth llyfrgell ar un oedolyn ifanc; gan wella ei hunanhyder a'i sgiliau darllen a chyfathrebu nes ei fod bellach yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau i blant, ac yn ddigon hyderus i roi cynnig ar bethau newydd.
- Cymorth Cymunedol – gwerth y gwasanaeth llyfrgell i un fam ifanc ar adegau gwahanol yn ei bywyd; galluogi mynediad ar-lein at wasanaethau, dysgu sgiliau newydd, rhoi amgylchedd diogel i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd, annog hoffter o ddarllen, ac yn fwy diweddar cynnig y lleoliad ar gyfer gweithgareddau teuluol a threulio amser gyda'i gilydd.
- Grŵp Darllen — effaith ymuno â grŵp darllen llyfrgell ar unigolyn, o ran mwynhau darllen a'r cyfeillgarwch a'r cymorth a roddir gan y grŵp. Mae'r llyfrgell hefyd wedi'i helpu i ddysgu sgiliau digidol newydd a meithrin hyder yn y maes hwn, yn ogystal â gwrthsefyll teimladau o fod yn unig ac wedi'i ynysu.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 90% | *3/15* | 24% | 82% | 96% | *88%* |
| c) iechyd a lles | 87% | *=3/15* | 33% | 62% | 94% | *86%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 97% | *=7/15* | 90% | 97% | 100% | *99%* |
| DA 2 – Boddhad cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 96% | *2/14* | 81% | 91% | 98% | *98%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 99% | *=3/14* | 93% | 99% | 100% | *100%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 91% | *=4/13* | 65% | 91% | 95% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol | 98% | *=4/14* | 93% | 97% | 99% | *100%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.3 | *=6/13* | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *9.7* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth | 42 | *7/22* | 13 | 30 | 208 | *77* |
| c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth | 394 | *2/22* | 15 | 199 | 433 | *372* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth | 689 | *1/22* | 91 | 295 | 689 | *526* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 4,428 | *4/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *4,520* |
| b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 920 | *11/22* | 345 | 885 | 2,205 | *910* |
| c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth | 123 | *15/22* | 58 | 150 | 251 | *190* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth[2] | 425 | *16/22* | 95 | 602 | 1,424 | *378* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth[3] | 6 | *21/22* | 5 | 10 | 14 | *6* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 32% | *8/22* | 14% | 25% | 63% | *34%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 22 | *=16/21* | 3 | 30 | 214 | *31* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,424 | *12/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *2,525* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth | £12,051 | *12/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£12,139* |
| b) % ar staff | 63% | *11/22* | 47% | 62% | 78% | *61%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 13% | *=10/22* | 8% | 13% | 21% | *10%* |
| % ar offer ac adeiladau | 0.4% | *22/22* | 0.4% | 4% | 25% | *0%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 23.6% | *8/22* | 0.3% | 16% | 37% | *29%* |
| c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth | £0 | *=17/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£0* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £1.59 | *=14/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£1.38* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.00%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 1.92% | *15/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *2.02%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân*
*[2] fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo*
*[3] fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl* *[4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Castell-nedd Port Talbot ei ddau arolwg (oedolion a phlant) ym mis Chwefror 2019. Roedd y canlyniadau yn dangos effaith gadarnhaol y llyfrgell ar fywydau pobl a chyfraddau boddhad uchel gyda gwasanaethau ac adnoddau. Nododd bod y gyfradd boddhad uchel (91%) gyda darpariaeth TG yn adlewyrchu'n dda ar y gwaith i uwchraddio cyfleusterau yn y maes hwn. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi lleihau gryn dipyn yn 2018/19; nodir bod hyn yn adlewyrchu ffocws ar gyflwyno nifer llai o sesiynau o ansawdd uwch, ac ehangu cymorth anffurfiol i ateb y galw ymhlith defnyddwyr. O ganlyniad i hyn, mae'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu, gyda'r perfformiad o ran hyn gyda'r gorau o hyd yng Nghymru.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda gwasanaethau hefyd yn cael eu darparu drwy ei saith llyfrgell a reolir gan y gymuned (nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth statudol). Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell wedi cynyddu ymhellach yn 2018/19, gyda'r perfformiad gorau y pen o'r boblogaeth yng Nghymru bellach. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion o ran hyn, gan ehangu'r ystod o weithgareddau a gynigir, a darparu ar gyfer ystod gynyddol o anghenion cymunedol. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi gwella mewn rhai meysydd ond mae'r dangosyddion mewn meysydd eraill wedi dirywio ac, ar y cyfan, mae'r perfformiad yn cyrraedd y lefel ganolrifol neu'n agos iddi. Er bod cyfanswm nifer yr ymwelwyr â llyfrgelloedd wedi lleihau ychydig, mae'r perfformiad o ran hyn yn parhau'n un o'r gorau yng Nghymru, ac mae nifer y llyfrau i oedolion a phlant a fenthycir wedi cynyddu. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y system rheoli llyfrgelloedd newydd i Gymru gyfan wedi arwain at adroddiadau mwy cywir, lle mae ymarfer glanhau data hefyd wedi arwain at ostyngiad mewn lefelau aelodaeth cofnodedig.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Daethpwyd o hyd i adnoddau ychwanegol i gefnogi gwariant ar ddeunyddiau yn 2018/19, a oedd yn cydnabod effaith toriadau blaenorol yn y maes hwn. Mae cyfanswm y gwariant wedi cynyddu dros 30%, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y llyfrau a fenthycir, ond nodir nad oes sicrwydd y gall cyllidebau barhau ar y lefel hon, ac mae'r gwasanaeth yn dal i fethu â chyflawni'r targedau caffael ar gyfer DA 9. Mae'r gwariant ar adnoddau Cymraeg wedi cynyddu dros bedair gwaith, gan fod y gwasanaeth wedi targedu buddsoddiad yn y maes hwn ac felly wedi llwyddo i gyflawni DA 10 yn 2018/19. Mae hyn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad o ran faint o ddeunyddiau Cymraeg a fenthycir. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau fel y mae fwy neu lai, a bydd Llyfrgell newydd Sgiwen yn cynnwys ystafell TG benodol. Mae'r defnydd o TGCh wedi lleihau ychydig, ond erys uwchlaw'r lefel ganolrifol i Gymru. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i fodloni'r gofynion o ran cyflenwi ceisiadau, gyda'r ddau darged o ran hyn yn cael eu cyflawni.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae nifer y staff a nifer y staff cymwysedig wedi aros yn ddigyfnewid ar y cyfan, ond mae lefel yr oriau CALI wedi gostwng ychydig o ganlyniad i newidiadau gwirfoddol i gontractau, ac nid yw Castell-nedd Port Talbot, yn debyg i'r rhan fwyaf o'r awdurdodau llyfrgell eraill, yn cyflawni'r naill darged na'r llall o ran staffio. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran cyfran amser y staff a dreulir ar ddatblygiad proffesiynol. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn wyth man gwasanaeth statudol y gwasanaeth wedi lleihau yn 2018/19, gyda chyfanswm o 22 o unigolion yn cyfrannu dros 64 o oriau yr un ar gyfartaledd i gefnogi meysydd penodol o'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig, sy'n adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd gweithredol mewn meysydd heblaw'r cyllidebau ar gyfer staff a deunyddiau, y mae'r naill a'r llall wedi cynyddu ers 2017/18. Mae cyfanswm yr oriau agor yn aros yn ddigyfnewid, a hynny islaw lefel y targed, ond nid yw'r adroddiad yn cynnwys darpariaeth drwy'r llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Caiff oriau agor eu hystyried hefyd fel rhan o'r adolygiad presennol o ddarpariaeth y gwasanaeth llyfrgell.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflwyno adroddiad ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at themâu craidd ei Strategaeth Llyfrgelloedd, gan gysylltu datblygiadau â blaenoriaethau corfforaethol ehangach, a'r Nodau llesiant cenedlaethol. Mae llawer o'r gwaith a nodir ynddi yn ymwneud â pharhau i ddarparu gwasanaethau a mentrau sefydledig, gyda datblygiadau o ran sefydlu partneriaethau gwaith newydd ac ymestyn yr ystod o weithgarwch prosiect.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn yr adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Castell-nedd Port Talbot yn nodi bod gwaith wedi dechrau ar adolygiad mawr o'i wasanaethau llyfrgell, y disgwylir i adroddiad gael ei gyhoeddi arno ddiwedd 2019. Mae hyn yn dilyn ymateb enfawr gan y cyhoedd i gynigion cyllideb 2018, a fyddai wedi golygu trosglwyddo neu gau nifer o lyfrgelloedd cangen. Nodir mai diben yr adolygiad yw sicrhau y gall y gwasanaeth llyfrgell barhau i ddarparu gwasanaeth perthnasol, cost-effeithiol a chynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf. Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni yn erbyn nodau ac argymhellion ei Strategaeth Llyfrgelloedd gyfredol (2016-2021), a bwrw ymlaen â chynlluniau i adleoli Llyfrgell Sgiwen yn 2019.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot wedi atgyfnerthu a gwella ei berfformiad mewn nifer o feysydd yn 2018/19, gyda staff ymroddedig a chynllunio gofalus yn cyfrannu at wasanaeth a reolir yn dda. Rhoddir pwyslais parhaus ar ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynigir, gan ddarparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion cymunedol, ac mae ymweliadau ffisegol ag adeiladau llyfrgelloedd yn dal i fod ymysg yr uchaf yng Nghymru. Mae mwy o fuddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau wedi galluogi gwelliant yr oedd ei angen yn ddirfawr, ac mae'r safon ar gyfer gwariant ar adnoddau Cymraeg bellach wedi'i bodloni. Fodd bynnag, nodir na cheir unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyllidebau ar y lefel hon yn 2019/20, a siomedig fyddai gweld y datblygiadau cadarnhaol hyn yn cael eu gwyrdroi. Nod penodol yr adolygiad presennol o ddarpariaeth y gwasanaeth llyfrgell, y mae disgwyl iddo gyflwyno adroddiad yn ddiweddarach yn 2019, yw parhau i sicrhau y caiff gwasanaeth llyfrgell perthnasol, cost-effeithiol a chynaliadwy ei ddarparu dros y pum mlynedd nesaf. Bydd pwysigrwydd lefelau priodol o adnoddau yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cael ei lywio i gyrraedd y nod hwn, gan ganiatáu iddo adeiladu ar y cryfderau sy'n amlwg i'w gweld yn yr adroddiad asesu eleni.

---

[i] Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.